

CANLLAWIAU

Coronafeirws: canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr (fersiwn 2)

Canllawiau i fyfyrwyr a staff yn y sector addysg sy'n bwriadu teithio yn y DU neu dramor, ac ar gyfer y rheiny sydd eisoes dramor. Diweddarwyd ddiwethaf 13 Mawrth 2020.

Cynnwys

- [1. Teithio i blant o dan 18 a drefnwyd gan sefydliadau addysg](#)
- [2. Teithio i fyfyrwyr dros 18 oed a staff a drefnir gan sefydliad addysgiadol](#)
- [3. Yswiriant teithio](#)
- [4. Canllawiau mewnfudo](#)
- [5. Rhagor o wybodaeth](#)

1. Teithio i blant o dan 18 a drefnwyd gan sefydliadau addysg

1.1 Teithiau tramor i blant o dan 18 a drefnwyd gan sefydliadau addysg

Yn unol â chyngor gan Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynghori yn erbyn pob taith addysgol dramor i blant o dan 18 oed a drefnir gan leoliadau addysg.

Ers 17 Mawrth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori dinasyddion Prydain yn erbyn pob taith ryngwladol nad yw'n hanfodol, a hynny am gyfnod cychwynnol o 30 o ddiwrnodau. Mae'r [canllawiau diweddaraf ar ymbellhau cymdeithasol](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) hefyd yn argymhell osgoi pob taith ddomestig nad yw'n hanfodol, yn ogystal ag osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, pan fo hynny'n bosibl.

1.2 Teithiau domestig i blant o dan 18 a drefnwyd gan sefydliadau addysg

Yn unol â chyngor gan Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynghori yn erbyn teithiau domestig (tripiau dros nos a thripiâu diwrnod) i blant o dan 18 oed a drefnir gan leoliadau addysg.

1.3 Teithiau tramor i blant o dan 18 a drefnwyd gan sefydliadau addysg sy'n digwydd ar hyn o bryd

Ers 23 Mawrth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori pobl o Brydain sy'n teithio dramor i ddychwelyd i'r DU ar unwaith, tra bo llwybrau masnachol yn dal ar agor.

Mae teithiau rhyngwladol bellach yn gyfyngedig iawn gan fod llwybrau awyr yn cau, ffiniau tir yn cau a chyfyngiadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i atal awyrennau rhag gadael.

Os oes unrhyw deithiau tramor i blant o dan 18 oed a drefnir gan leoliadau addysg eisoes yn digwydd, dylid trefnu bod y teithiau hynny'n dod i ben a'r teithwyr yn dychwelyd. Bydd rhaid ichi ystyried y sefyllfa gyfnewidiol sydd ohoni a chynllunio yn unol â hynny, gan ystyried y ffaith bod llai o lwybrau masnachol ar agor ar hyn o

bryd.

Tra byddwch dramor, os bydd rhywun yn y grŵp teithio yn datblygu symptomau'r coronafeirws (COVID-19) (peswch cyson neu dymheredd uchel dros 37.8 gradd), dylent geisio cymorth meddygol a dilyn cyngor yr awdurdodau lleol. Dylent fod yn barod i gydymffurfio â gofynion hunanynysu, profi a chwariantin lleol, a bydd rhaid iddynt ddibynnu ar y system iechyd leol.

Dylai lleoliadau addysg ddiweddarau eu hasesiadau risg a sicrhau bod mesurau yn eu lle ac wedi'u cytuno gyda rhieni rhag ofn y bydd plant neu oedolion sy'n goruchwylio yn arddangos symptomau sy'n galw am hunanynysu.

Tra byddwch dramor, dylech gofio y gellir cau ffiniau a chyflwyno mesurau i gyfyngu ar symudiadau ar fyr rybudd. Rhaid ichi ddilyn cyngor awdurdodau lleol yn ogystal â [chyngor teithio diweddaraf y Swyddfa Dramor a Chymanwlad](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>).

Mae timau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ledled y byd yn gweithio ar frys i sicrhau bod gan lywodraethau gynlluniau synhwyrol er mwyn i deithwyr o Brydain a theithwyr eraill allu dychwelyd ac, yn hollbwysig, er mwyn cadw ffiniau ar agor yn ddigon hir i bobl allu dychwelyd drwy lwybrau masnachol, pan fo hynny'n bosibl. Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad hefyd yn gweithio â chwmnïau hedfan i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu dychwelyd adref ar awyrennau masnachol.

Dylai teithwyr o'r DU edrych yn rheolaidd ar [gyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) diweddaraf y wlad/ardal y maent ynddi.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi rhoi [cyngor](https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus#if-youre-abroad-and-you-want-to-return-to-the-uk) (<https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus#if-youre-abroad-and-you-want-to-return-to-the-uk>) i ddinasyddion Prydain sydd dramor ac yn methu gadael ar unwaith.

Dylech gysylltu â'ch cwmni hedfan, eich gweithredwr teithiau a'ch yswiriwr teithio i weld pa gymorth y gallant ei gynnig.

Os ydych yn ddinesydd y DU sydd angen cymorth brys gan Lywodraeth y DU, gallwch gysylltu â'r [llysgenhadaeth, y conswl neu'r uchel gomisiwn Prydeinig agosaf](https://www.gov.uk/government/world/embassies) (<https://www.gov.uk/government/world/embassies>) neu â'r [Swyddfa Dramor a](#)

Chymanwlad yn Llundain (<https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office>) ar 0207 008 1500 i gael cymorth neu gyngor 24 awr y dydd.

Darllenwch y canllawiau ar yr hyn y gallwch ei wneud os oes angen **cymorth ariannol** (<https://www.gov.uk/government/publications/financial-assistance-abroad>) ac â phwy y gallwch **gysylltu i gael cymorth pan fyddwch dramor** (<https://www.gov.uk/government/publications/support-for-british-nationals-abroad-a-guide>).

Gallwch gofrestru i gael negeseuon e-bost ynghylch y wlad/ardal rydych ynddi drwy ddolen 'Get email alerts' ar bob **tudalen cyngor teithio** (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>).

2. Teithio i fyfyrwyr dros 18 oed a staff a drefnir gan sefydliad addysgiadol

2.1 Myfyrwyr a staff sy'n ystyried teithio dramor ar gyfer lleoliadau neu gyfnewid

Ers 17 Mawrth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cyngori dinasyddion Prydain yn erbyn pob taith ryngwladol nad yw'n hanfodol, a hynny am gyfnod cychwynnol o 30 o ddiwrnodau. Mae'r **canllawiau diweddaraf ar ymbellhau cymdeithasol** (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) hefyd yn argymhell osgoi pob taith ddomestig nad yw'n hanfodol, yn ogystal ag osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, pan fo hynny'n bosibl.

Mae teithiau rhyngwladol bellach yn gyfyngedig iawn gan fod llwybrau awyr yn cau, ffiniau tir yn cau a chyfyngiadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i atal awyrennau rhag gadael.

Dylech ddarllen **cyngor teithio diweddaraf y Swyddfa Dramor a Chymanwlad** (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) cyn ichi deithio. Gallwch gofrestru i gael negeseuon e-bost ynghylch y wlad/ardal rydych ynddi drwy ddolen 'Get email alerts' ar bob **tudalen cyngor teithio** (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>).

Cyn ichi deithio, darllenwch y cyngor iechyd diweddaraf a dilyn y **canllawiau i deithwyr** (<https://travelhealthpro.org.uk/news/499/novel-coronavirus-covid-19-general->

[advice-for-travellers](#)) er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (COVID-19). Hefyd, dylech ddarllen [canllawiau](#) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) lechyd Cyhoeddus Cymru cyn ichi deithio.

Dylech gofio y gallai'r [cyngor teithio](#) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) newid tra byddwch dramor. Rydym yn eich cyngori i ddarllen holl [ganllawiau perthnasol GOV.UK](#) (<https://www.gov.uk/coronavirus>) yn rheolaidd, gan gynnwys cyn ichi ddychwelyd i'r DU.

Os ydych yn teithio dramor gyda'ch lleoliad neu'ch sefydliad (er enghraifft, darparwr addysg uwch), neu ar ei ran, dylech siarad â nhw cyn ichi adael i gael cyngor ynghylch p'un ai a ddylech chi barhau â'r daith ai peidio.

2.2 Myfyrwyr a staff sy'n ystyried teithio dramor yn ystod toriadau'r tymor

Dylech ystyried y [cyngor teithio diweddaraf](#) (<https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus>) gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a [gwefan lechyd Cyhoeddus Cymru](#) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>) cyn i chi deithio os ydych:

- yn fyfyrwr neu'n aelod o staff nad yw'n wladolyn y DU sy'n astudio neu'n gweithio yn y DU
- yn fyfyrwr neu'n aelod o staff sy'n byw yn y DU sy'n ystyried teithio dramor yn ystod toriadau yn y tymor
- yn fyfyrwr neu'n aelod o staff sy'n byw yn y DU sydd yn astudio neu'n gweithio dramor ar hyn o bryd sy'n ystyried teithio yn ôl i'r DU yn ystod toriadau'r tymor

Gallwch danysgrifio i hysbysiadau e-bost ar gyfer y wlad/tiriogaeth yr ydych ynddi, neu'n bwriadu ymweld â hi, drwy'r ddolen 'Get email alerts' ar y dudalen [cyngor teithio](#) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>).

Os ydych yn bwriadu teithio dramor, dylech roi gwybod i'ch lleoliad addysg neu sefydliad addysg uwch, fel ei bod yn gwybod o'ch bwriad i deithio, a'u bod yn gallu rhoi'r cyngor a'r canllawiau diweddaraf i chi.

2.3 Myfyrwyr y DU sy'n ystyried teithio dramor i gychwyn neu barhau cyrsiau llawn

Ers 17 Mawrth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori dinasyddion Prydain yn erbyn teithiau rhyngwladol, a hynny am gyfnod cychwynol o 30 o ddiwrnodau. Mae'r [canllawiau diweddaraf ar ymbellhau cymdeithasol](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) hefyd yn argymhell osgoi pob taith ddomestig nad yw'n hanfodol, yn ogystal ag osgoi defnyddio trafniadaeth gyhoeddus, pan fo hynny'n bosibl. Mae teithiau rhyngwladol bellach yn gyfyngedig iawn gan fod llwybrau awyr yn cau, ffiniau tir yn cau a chyfyngiadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i atal awyrennau rhag gadael.

Dylech ddarllen [cyngor teithio diweddaraf y Swyddfa Dramor a Chymanwlad](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) cyn ichi deithio. Gallwch gofrestru i gael negeseuon e-bost ynghylch y wlad/ardal rydych ynddi drwy ddolen 'Get email alerts' ar bob [tudalen cyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>).

Cyn ichi deithio, darllenwch y cyngor iechyd diweddaraf a dilyn y [canllawiau i deithwyr](https://travelhealthpro.org.uk/news/499/novel-coronavirus-covid-19-general-advice-for-travellers) (<https://travelhealthpro.org.uk/news/499/novel-coronavirus-covid-19-general-advice-for-travellers>) er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (COVID-19). Hefyd, dylech ddarllen [canllawiau](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn ichi deithio.

Dylech gofio y gallai'r [cyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) newid tra byddwch dramor. Rydym yn eich cynghori i ddarllen holl [ganllawiau perthnasol GOV.UK](https://www.gov.uk/coronavirus) (<https://www.gov.uk/coronavirus>) yn rheolaidd, gan gynnwys cyn ichi ddychwelyd i'r DU.

Os ydych yn teithio dramor gyda'ch lleoliad neu'ch sefydliad (er enghraifft, darparwr addysg uwch), neu ar ei ran, dylech siarad â nhw cyn ichi adael i gael cyngor ynghylch p'un ai a ddylech chi barhau â'r daith ai peidio.

2.4 Myfyrwyr a staff y DU sydd eisoes yn astudio neu'n gweithio dramor

Caiff pob myfyriwr ac aelod o staff sydd ar hyn o bryd yn astudio ar raglenni cyfnewid (er enghraifft, Erasmus+, neu dymhorau tramor) neu'n gweithio dramor dros dro eu cynghori i ddychwelyd i'r DU yn awr, tra bo llwybrau masnachol yn dal ar agor.

Os yw myfyrwyr o'r DU sydd ar hyn o bryd dramor am gyfnodau hirach, er enghraifft y rheini sy'n astudio graddau llawn, yn ystyried dychwelyd i'r DU, dylent wneud hynny tra bo llwybrau masnachol yn dal ar agor.

Mae teithiau rhyngwladol bellach yn gyfyngedig iawn gan fod llwybrau awyr yn cau, ffiniau tir yn cau a chyfyngiadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i atal awyrennau rhag gadael.

Os ydych yn ystyried dychwelyd i'r DU, dylech gysylltu â'ch cwmni hedfan neu'ch cwmni teithio yn awr, gan ddarllen [cyngor teithio diweddaraf](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Os byddwch yn datblygu symptomau'r coronafeirws (COVID-19) (peswch cyson neu dymheredd uchel dros 37.8 gradd) tra byddwch dramor, dylech geisio cymorth meddygol a dilyn cyngor yr awdurdodau lleol. Dylech fod yn barod i gydymffurfio â gofynion hunanynysu, profi a chwariantin lleol, a bydd rhaid ichi ddibynnu ar y system iechyd leol.

Mae timau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ledled y byd yn gweithio ar frys i sicrhau bod gan lywodraethau gynlluniau synhwyrol er mwyn i deithwyr o Brydain a theithwyr eraill allu dychwelyd ac, yn hollbwysig, er mwyn cadw ffiniau ar agor yn ddigon hir i bobl allu dychwelyd ar lwybrau masnachol, pan fo hynny'n bosibl. Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad hefyd yn gweithio â chwmnïau hedfan i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu dychwelyd adref ar awyrennau masnachol.

Dylai teithwyr o'r DU ddarllen y [cyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) (<https://www.gov.uk/foreign-travel-advice>) diweddaraf ar gyfer y wlad/ardal y maent ynddi.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi cyhoeddi [cyngor](https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus#if-youre-abroad-and-you-want-to-return-to-the-uk) (<https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus#if-youre-abroad-and-you-want-to-return-to-the-uk>) i ddinasyddion Prydain sydd dramor ac yn methu gadael ar unwaith.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn gweithio gyda chwmnïau hedfan i gadw llwybrau ar agor. Hefyd, mae hi'n galw am gamau gweithredu rhyngwladol i gadw llwybrau ar agor er mwyn i bobl o Brydain allu dychwelyd adref ar awyrennau masnachol. Rydym hefyd yn gweithio ddydd a nos i helpu'r teithwyr hynny o Brydain sy'n cael trafferth dod yn ôl i'r DU.

Dylech barhau i fonitro'r [cyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice) a roddir gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a chydymffurfio ag unrhyw fesurau i reoli'r coronafeirws (COVID-19) a sefydlir gan y wlad yr ydych ynddi.

Hefyd, dylech gysylltu â'ch lleoliad addysg i roi gwybod iddynt am eich cynlluniau er mwyn iddynt allu rhoi'r canllawiau diweddaraf ichi.

Os ydych yn preswyllo dramor yn barhaol ac yn bwriadu aros yn eich gwlad breswyl, dylech ddilyn cyngor yr awdurdodau lleol yn y wlad yr ydych yn byw ynddi.

Os ydych yn bwriadu dychwelyd i'r DU, dylech ddefnyddio dulliau teithio priodol. Rhaid ichi ystyried y sefyllfa gyfnewidiol sydd ohoni, gan gynllunio yn unol â hynny, gan ystyried y ffaith bod llai o lwybrau masnachol ar agor ar hyn o bryd.

Dylai teithwyr sydd dramor ar hyn o bryd gofio y gellir cau ffiniau a chyflwyno mesurau i gyfyngu ar symudiadau ar fyr rybudd.

Os ydych dramor, rhaid ichi ddilyn cyngor awdurdodau lleol a dilyn [cyngor teithio diweddaraf y Swyddfa Dramor a Chymanwlad](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice). Dylech fod yn barod i gydymffurfio â gofynion hunanynysu, profi a chwariantin lleol, a bydd rhaid ichi ddibynnu ar y system iechyd leol. Dylech gysylltu â'ch cwmni hedfan, eich gweithredwr teithiau a'ch yswiriwr teithio er mwyn gweld pa gymorth y gallant ei gynnig.

Gallwch gofrestru i gael negeseuon e-bost ynghylch y wlad/ardal rydych ynddi drwy ddolen 'Get email alerts' ar bob [tudalen cyngor teithio](https://www.gov.uk/foreign-travel-advice). Hefyd, dylech ddarllen yr wybodaeth ddiweddaraf ar [wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/) i weld beth yw'r camau y gallwch eu cymryd i'ch diogelu eich hun.

Os ydych yn ddinesydd y DU sydd angen cymorth brys gan Lywodraeth y DU, gallwch gysylltu â'r [llysgenhadaeth, y conswl neu'r uchel gomisiwn Prydeinig agosaf](https://www.gov.uk/government/world/embassies) (<https://www.gov.uk/government/world/embassies>) neu â'r [Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn Llundain](https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office) (<https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office>) ar 0207 008 1500 i gael cymorth neu gyngor 24 awr y dydd.

Cyn ichi deithio, dylech hefyd gyfeirio at y [canllawiau i deithwyr](https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus) (<https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus>) er mwyn ymglyfarwyddo â'r camau y gallai fod angen ichi eu cymryd ar ôl dychwelyd i'r DU. Darllenwch yr wybodaeth am [hunanyysu](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/). (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>)

Darllenwch y [canllawiau ar yr hyn y gallwch ei wneud os oes angen cymorth ariannol arnoch](https://www.gov.uk/government/publications/financial-assistance-abroad) (<https://www.gov.uk/government/publications/financial-assistance-abroad>) ac [â phwy y gallwch gysylltu i gael cymorth pan fyddwch dramor](https://www.gov.uk/government/publications/support-for-british-nationals-abroad-a-guide) (<https://www.gov.uk/government/publications/support-for-british-nationals-abroad-a-guide>).

2.5 Myfyrwyr sydd eisoes ar gyfnewidiadau Erasmus+ neu'r European Solidarity Corps

Os ydych ar leoliad ar hyn o bryd, rydym yn eich cynghori i ddychwelyd i'r DU yn awr. Ers 23 Mawrth, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori pobl o Brydain sy'n teithio dramor i ddychwelyd i'r DU ar unwaith, tra bo llwybrau masnachol yn dal ar agor.

Mae teithiau rhyngwladol bellach yn gyfyngedig iawn gan fod llwybrau awyr yn cau, ffiniau tir yn cau a chyfyngiadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i atal awyrennau rhag gadael.

Cysylltwch â'ch darparwr i roi gwybod iddo am eich cynlluniau. Bydd rhaid ichi ystyried y sefyllfa gyfnewidiol sydd ohoni a chynllunio yn unol â hynny, gan ystyried y ffaith bod llai o lwybrau masnachol ar agor ar hyn o bryd.

Os byddwch yn datblygu symptomau'r coronafeirws (COVID-19) (peswch cyson neu dymheredd uchel dros 37.8 gradd) tra byddwch dramor, dylech geisio cymorth meddygol a dilyn cyngor yr awdurdodau lleol. Dylech fod yn barod i gydymffurfio â gofynion hunanyysu, profi a chwariantin lleol, a bydd rhaid ichi ddibynnu ar y

system iechyd leol.

Os yw'r teithiau wedi'u cyllido drwy raglenni Erasmus+ neu'r European Solidarity Corps, efallai y bydd cymal force majeure eich contract yn berthnasol. Gweler [gwefan yr Asiantaeth Genedlaethol](https://www.erasmusplus.org.uk/news/travel-advice-for-regions-affected-by-coronavirus) (<https://www.erasmusplus.org.uk/news/travel-advice-for-regions-affected-by-coronavirus>) i gael gwybod mwy.

Os ydych yn ddinesydd y DU sydd angen cymorth brys gan Lywodraeth y DU tra byddwch dramor oherwydd nad yw'r wlad yr ydych ynddi yn caniatáu ichi deithio'n ôl i'r DU, neu oherwydd nad oes opsiynau teithio masnachol ar gael, gallwch gysylltu â'r [llysgenhadaeth, y conswl neu'r uchel gomisiwn Prydeinig agosaf](https://www.gov.uk/government/world/embassies) (<https://www.gov.uk/government/world/embassies>) neu â'r [Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn Llundain](https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office) (<https://www.gov.uk/government/organisations/foreign-commonwealth-office>) ar 0207 008 1500 i gael cymorth neu gyngor 24 awr y dydd.

Darllenwch y canllawiau ar yr hyn y gallwch ei wneud os oes angen [cymorth ariannol](https://www.gov.uk/government/publications/financial-assistance-abroad) (<https://www.gov.uk/government/publications/financial-assistance-abroad>) arnoch ac [â phwy y gallwch gysylltu i gael cymorth pan fyddwch dramor](https://www.gov.uk/government/publications/support-for-british-nationals-abroad-a-guide) (<https://www.gov.uk/government/publications/support-for-british-nationals-abroad-a-guide>).

3. Yswiriant teithio

Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi paratoi [gwybodaeth ar oblygiadau yswiriant teithio](https://www.abi.org.uk/products-and-issues/topics-and-issues/coronavirus-qa/) (<https://www.abi.org.uk/products-and-issues/topics-and-issues/coronavirus-qa/>) yn dilyn COVID-19. Os oes gyda chi fwy o gwestiynau ynghylch eich yswiriant neu os hoffech fwy o sicrwydd, dylech gysylltu â'ch darparwr yswiriant teithio.

4. Canllawiau mewnfudo

[Canllawiau mewnfudo i unigolion yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau teithio sy'n gysylltiedig â COVID-19 \(Coronafeirws\) ar GOV.UK](https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-immigration-guidance-if-youre-unable-to-return-to-china-from-the-uk) (<https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-immigration-guidance-if-youre-unable-to-return-to-china-from-the-uk>).

5. Rhagor o wybodaeth

- **[canllawiau i ysgolion a lleoliadau addysgiadol eraill](https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-ar-gyfer-lleoliadau-addysgol)**
(<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-ar-gyfer-lleoliadau-addysgol>)
 - **[canllawiau i ysgolion a lleoliadau addysgiadol eraill ar lechyd Cyhoeddus Cymru](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/arweiniad-ar-gyfer-ysgolion-cyngor-i-rieni-neu-ofalwyr/)** (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/arweiniad-ar-gyfer-ysgolion-cyngor-i-rieni-neu-ofalwyr/>)
 - **[Y wybodaeth ddiweddaraf gan lechyd Cyhoeddus Cymru](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/)**
(<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>)
-

Cyhoeddwyd gyntaf

13 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

13 Mawrth 2020
